Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.4.13 Ariannu lleol - Powys

Lluniwyd y daflen wybodaeth yma i roi manylion am y grantiau bach sydd ar gael i grwpiau a mudiadau bach o fewn sector gwirfoddol **Powys.** Bwriad y cofnodion yw rhoi canllaw cyffredinol; bydd y cysylltiadau yn medru rhoi mwy o wybodaeth fanwl i chi.

Dylid darllen y daflen ynghyd â **7.4.1 Grantiau Bach** sy'n rhoi manylion y grantiau bach sydd ar gael yn rhanbarthol a thrwy Gymru gyfan.

'Can Do Communities'

Nodau: Dyma gronfa grant ar gyfer mudiadau gwirfoddol a chymunedol ynysig sy'n ymgymryd â phrosiectau sy'n cyfrannu tuag at adfywiad cymunedol cymdeithasol ac economaidd ac sy'n gwneud gwir wahaniaeth i ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig.

Sylw: Mae'r cynllun ar gyfer prosiectau cyfalaf sydd yn arddangos budd economaidd a chymdeithasol. Gall hyn gynnwys: creu neu ailwampio'r cyfleusterau sydd ar gael i'r gymuned gyfan neu eu haddasu er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i bobl anabl; Gwella'r amgylchfyd naturiol neu adeiledig i bobl leol gan wella budd y gymuned drwy hybu gweithgareddau a ffyrdd iachus o fyw; neu annog hyfforddiant sy'n targedu pobl fregus neu eithriedig. Ariennir gan Lywodraeth Cymru dan Raglen Weithgareddau Cymunedau a Chyfleusterau.

Swm: £4,500
Cyfyngiadau: Cyfalaf yn unig
Proses Ymgeisio: Ffurflen gais
Dyddiad Cau: Ffoniwch am y dyddiad cau nesaf
Ffôn: 01597 822191
E-bost: info@pavo.org.uk
Gwefan: www.pavo.org.uk/index.php?id=539&L=0

Cynllun Grantiau Bach Iechyd a Lles

Nodau: Mae'r cynllun yma yn rhoi cyfle i grwpiau gwirfoddol ym Mhowys i ymgymryd â gweithgareddau a gweithredoedd newydd sy'n hyrwyddo iechyd a lles ac amcanion y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Ariennir y cynllun gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys a Chyngor Sir Powys, a gweinyddir y cynllun gan PAVO.

Sylw: Ymgymryd â gweithgareddau newydd sy'n hyrwyddo amcanion y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 2008 - 11. Ariennir gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys, Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Powys a Her Iechyd Cymru.

Swm: £1000
Proses Ymgeisio: Dwy rownd y flwyddyn drwy ffurflen gais.
Dyddiad Cau: Ffoniwch am y dyddiad cau nesaf
Ffôn: 0845 009 3288
E-bost: info@pavo.org.uk
Gwefan: www.pavo.org.uk/index.php?id=412&L=0

Cynllun Grantiau Bach Partneriaeth Amgylcheddol Powys

Nodau: Mae gan Bartneriaeth Amgylcheddol Powys, sef un o bum partneriaeth Strategaeth Gymunedol Powys, Gynllun Grantiau Bach ar gyfer prosiectau parthed yr amgylchfyd ym Mhowys.

Sylw: Rhaid i bob prosiect gysylltu â blaenoriaethau amgylcheddol y Strategaeth Gymunedol, ac am fwy o wybodaeth ar weithrediadau blaenoriaethol yr amgylchedd ewch i wefan http://community-strategy.powys.org.uk

Swm: £500-£750
Cyfyngiadau: Am wybodaeth cysylltwch â Hayley Beavan ar y manylion isod.
Proses ymgeisio:
Dyddiad cau: ffoniwch am y rownd ddiweddaraf
Ffôn: 01597 822191
Ffacs: 01597 828675
E-bost: info@pavo.org.uk
Gwefan: www.pavo.org.uk/index.php?id=400

Y Gronfa 'Grass Roots'

Nodau: Noddir y grant yma gan Lywodraeth Cymru ond gweinyddir y cyfan gan PAVO. Bwriad y grant yw adeiladu gallu o fewn grwpiau gwirfoddol a chymunedol a ffurfiwyd gan gymunedau o ddiddordeb. Efallai nad oes gan y grwpiau yma ffyrdd hawdd i gronfeydd ariannu, ac felly maent o dan anfantais. Mae yna gyfanswm o £5,000 ar gael ym Mhowys.

Sylw: Mae'r 'grwpiau dan anfantais' yn cynnwys: grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, pobl hoyw, lesbiaid a deuryw, grwpiau menywod, grwpiau digartref, ffoaduriaid ac ymofynwyr noddfa, grwpiau teithwyr a sipsiwn, grwpiau sy'n helpu pobl gyda lefelau llythrennedd neu rifedd isel, grwpiau ynysig a chymunedau ieithoedd.

Mae'r gweithgareddau posib yn cynnwys:
- Datblygu cylchlythyr neu wefan
- Prynu cyfarpar cyfrifiadurol
- Trefnu cyfarfodydd neu dalu am logi ystafell

- Trefnu digwyddiadau hyfforddi
- Talu am siaradwyr gwadd

Swm: £100 - £2000

Cyfyngiadau: Rhaid i fudiadau sy'n ymgeisio:
- gael incwm blynyddol o lai na £5,000, a chynrychioli grŵp a nodwyd uchod.
- weithredu yng Nghymru.
- gael cyfansoddiad derbyniol, neu adnabod mudiad sydd â chyfansoddiad a fydd yn derbyn yr arian ar eu rhan.
- fod yn fudiad dielw.

Proses ymgeisio: Cysylltwch â Llinell Gymorth PAVO am ffurflen gais
Dyddiad cau: Ffoniwch am fanylion
Ffôn: 01597 822191
E-bost: info@pavo.org.uk
Gwefan: www.pavo.org.uk

Cronfa Deddfau'r Eglwys yng Nghymru

Nodau: Mae'r gronfa yma yn rhoi grantiau hyblyg o fewn tri maes gwahanol: Grwpiau cymunedol, gan gynnwys mudiadau celfyddydol a diwylliannol (rhoddir blaenoriaeth i ganolfannau cymunedol, neuaddau pentref a mudiadau ar gyfer plant a phobl ifanc); eglwysi a chapeli (yn bennaf ar gyfer adferiad allanol, atgyweirio a chynnal prif ffabrig yr adeilad); ac unigolion (yn enwedig pobl ifanc, oedolion ifanc a throseddwyr ifanc).

Sylw: Mae yna ogwydd tuag at gynlluniau cyfalaf a phrosiectau newydd. Mae mwyafrif y grantiau ar gyfer help un-tro parthed atgyweirio neu gynnal adeiladau cymunedol pan fo'r gwaith yn fwy na rheolaidd. Rhoddir blaenoriaeth i ganolfannau cymunedol, neuaddau pentref a mudiadau sy'n unig ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae grantiau un-tro ar gael i eglwysi a chapeli yn ôl eu pwysigrwydd fel adeiladau hanesyddol neu fel prif nodwedd yn yr amgylchfyd lleol, ac nid fel cyfleusterau crefyddol neu enwadol. Mae angen personol yn brif faen prawf ar gyfer rhoi grantiau i bobl ifanc, oedolion ifanc a throseddwyr ifanc. Rhaid i'r unigolion sy'n gwneud cais fyw ym Mhowys neu, os yn y coleg, yn fab neu ferch i berson sy'n byw ym Mhowys.

Swm: Uchafswm o £3,000 (hyd at lefel 15% y costau a gymeradwyir) i fudiadau; uchafswm o £2,000 (10%) i eglwysi a chapeli; £500 (50%) i unigolion.

Cyfyngiadau: Ni ddefnyddir y grantiau ar gyfer gwariant refeniw, cyflogau neu gostau cyflogi. Hefyd, nid ydynt ar gyfer gwisg bersonol neu gostau cyfarpar. Ni ellir defnyddio grantiau eglwysi a chapeli ar gyfer atgyweirio mewnol (heblaw am amgylchiadau arbennig). Hefyd nid ydynt ar gyfer adeiladu eglwysi a chapeli newydd. Nid yw'r grantiau ar gyfer unigolion yn cynnwys gwisg bersonol neu wyliau tramor. Gwrthodir ceisiadau cyffredinol gan gyrff cenedlaethol.

Proses ymgeisio: Mae ffurflenni cais ar gael.

Dyddiad cau: Gellir gwneud cais ar unrhyw adeg. Y terfyn amser ar gyfer pob blwyddyn ariannol yw Mawrth, Mehefin, Awst a Medi.

Cyswllt: Ceisiadau Grant
Powys Welsh Church Acts Fund
Economic and Communities Regeneration Directorate
St John's Offices, Fiveways, Llandrindod, Powys
Ffôn: 01597 827500
E-bost: jenni.thomas@powys.gov.uk
Gwefan: www.powys.gov.uk

Cronfa Gefnogaeth Galluogi'r Gymuned Powys

Nodau: Prif bwrpas hwn yw cefnogi datblygiad cymdeithasol a chymunedol. Gall mudiadau a grwpiau gwirfoddol sy'n medru dangos fod ganddynt gyfansoddiad wneud cais am elfennau 'cyfalaf' neu 'refeniw'. Mae Cyngor Sir Powys yn cydnabod gwerth y mudiadau cymunedol i geisio cynnal eu cymunedau, gan gyflawni prosiectau sy'n cynnwys cymryd rhan leol sydd yn cynnwys pawb. Mae cymryd rhan yn lleol yn fwy effeithiol pan yw'n cynnwys traws-doriad o'r gymuned leol, gan gynrychioli rhai grwpiau a esgeulusir gan y gymdeithas. Dylai cymryd rhan leol geisio cynnwys pobl yn y gymuned o wahanol oedran, hil, anabledd, crefydd, cenedl, rhywioldeb, Cymry Cymraeg a chefndir addysgol gwahanol.

Sylw: Er mwyn bod mor hyblyg â phosib, nid oes gan y Cyngor rhestr rhagnodol o'r math o brosiectau y gellir eu hariannu. Mae'r Cyngor yn gobeithio annog creadigrwydd, newydd-deb a datblygiad wrth gefnogi pob prosiect. Rhoddir blaenoriaeth i'r prosiectau hynny sy'n dangos yn glir eu bod yn defnyddio cynlluniau sy'n ymwneud ag un neu fwy o strategaethau neu bolisïau'r Cyngor; ymrwymiad lleol cryf a budd i'r gymuned; dangos ymrwymiad i gyflawni cymryd rhan lawn gan y gymuned; ffyrdd cyfartal i'r ddarpariaeth, gan gynnwys dewis iaith a diwylliant; cynlluniau sy'n ystyried hygyrchedd ar gyfer pobl anabl; cynlluniau sy'n hyrwyddo a chefnogi cyfartaledd ac amrywiaeth.

Swm: £15,000

Cyfyngiadau: Ni all y Cyngor ariannu rhai eitemau neu weithgareddau. Yn yr enghreifftiau yma, bydd ymgeiswyr yn derbyn cyngor. Mae'r eitemau anghymwys yn cynnwys y canlynol: digwyddiadau codi arian; costau goleuo stryd, megis goleuadau Nadolig; dodrefn stryd; CCTV; prynu bws mini; gweithgareddau politicaidd neu grefyddol; dyblu gwasanaethau neu ddarpariaeth; gwisg bersonol.

Proses ymgeisio: Am wybodaeth bellach a sut i wneud cais, cysylltwch â'r swyddfa.

Dyddiad cau: Gellir ymgeisio drwy gydol y flwyddyn. Nid oes terfyn amser penodol. Asesir y ceisiadau yn chwarterol.

Cyswllt: Jenni Thomas
Powys Community Enablement Support Fund
Economic and Community Regeneration Directorate
St John's Offices, Fiveways, Llandrindod, Powys
Ffôn: 01597 827500
E-bost: jenni.thomas@powys.gov.uk
Gwefan: www.powys.gov.uk

Cynllun Croeso'r Gymuned (Cyngor Sir Powys - Adran Twristiaeth)

Nodau: Mae hwn yn gynllun grant dirprwyedig sy'n ceisio cefnogi prosiectau twristiaeth bach yn y gymuned drwy Bowys gyfan. Mae'r cynllun yn cynnig cefnogaeth grant cyfalaf a refeniw. Dyma rai enghreifftiau o brosiectau posib: datblygiadau rhwydwaith twristiaeth, gwefannau, gwybodaeth ymwelwyr, astudiaethau dichonoldeb, tirlunio mannau gwyrdd, dodrefn stryd, gwelliannau llwybrau troed, beicio a marchogaeth, llwybrau treftadaeth / eglwysig ac ati.

Sylw: Mae Cyngor Sir Powys ynghyd â Phartneriaeth Adfywio Powys wedi llwyddo i ddiogelu £300,000 i redeg cynllun grant o'r enw..... Ariennir y prosiect yn rhannol drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 - 2013 a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru. Rhedir y cynllun ar sail 'y cyntaf i'r felin...', ac mae'r agored i gynghorau tref a chymuned, mentrau cymunedol, sefydliadau twristiaeth a'r sector wirfoddol.

Swm: Gosodir y grant ar 80% o gostau posib y prosiect hyd at uchafswm o £10,000 i bob prosiect cyfalaf, a hyd at £5,000 i bob prosiect refeniw.

Cyfyngiadau: Rhaid i'r prosiectau fod ym Mhowys, rhaid iddynt gynnwys buddion twristiaeth a chael eu harwain gan y gymuned.

Cyswllt: Hazel Bowen/Elisa Parry
Ffôn: 01874 612 278
E-bost: community.tourism@powys.gov.uk

Cynllun Datblygu Gwledig Powys

Mae Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 - 2013 (RDP) yn rhaglen Undeb Ewropeaidd i hyrwyddo datblygiad ardaloedd gwledig. Ei nod yw annog a helpu cymunedau gwledig i feddwl am botensial hirdymor eu hardal. Mae'n ceisio annog datblygu a thraddodi prosiectau integredig gwreiddiol o ansawdd uchel sy'n cefnogi datblygiad cynaliadwy yn seiliedig ar anghenion lleol a ffyrdd newydd ar gyfer datblygu gwledig. Mae'r cyfnod cyntaf yn rhedeg o Fehefin 2008 - Chwefror 2011.
Mae Powys, trwy Bartneriaeth Adfywio Powys, wedi denu adnoddau ariannol sylweddol yr Undeb Ewropeaidd i helpu gydag adfywio yn yr ardal. Y meysydd prosiect a ddenodd gefnogaeth yw:

- Cefnogaeth i greu a datblygu busnes

- Anogaeth gweithgareddau twristiaeth
- Cadw ac uwchraddio treftadaeth wledig
- Adfywio a datblygu pentrefi

Mae Powys ar fin derbyn £3.9 miliwn oddi wrth Gronfa Amaethyddol yr undeb Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru i weithredu'r prosiectau yma. Os hoffech fwy o wybodaeth ar unrhyw brosiect cysylltwch â Lee Price ar 01982 552224 neu anfonwch e-bost at leepr@powys.gov.uk

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae **Cronfa Datblygu Cynaliadwy** yn wobr flynyddol o £250,000 oddi wrth Lywodraeth Cymru i gefnogi prosiectau sy'n datblygu ac asesu'r ffyrdd o gyflawni dull byw mwy cynaliadwy o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae'n ceisio helpu gyda phrosiectau sy'n ystyried materion economaidd, amgylcheddol, cymunedol a diwylliannol, ac sy'n gwella ansawdd byw'r cymunedau.
Meysydd blaenoriaeth 2008/9 yw prosiectau sy'n:

- Cefnogi mentrau cludiant yn y gymuned a ddyluniwyd i leihau ôl troed carbon.
- Cefnogi mentrau cludiant ymwelwyr cynaliadwy, gan gynnwys mynediad i 'fannau poblogaidd'.
- Cefnogi marchnata a hyrwyddo bwyd a defnydd cynnyrch lleol.
- Hyrwyddo defnydd cynaliadwy adnoddau dŵr, drwy gefnogi prosiectau a ddyluniwyd i hyrwyddo mynediad at ddŵr.

Dyddiadau cau ceisiadau 2008/9:
Ionawr 9fed 2009, Mawrth 10fed 2009

Noder fod arian cyfyngedig ar ôl ar gyfer 2008/9 ond gwahoddir prosiectau mwy i wneud cais ar gyfer 2009/10.
www.breconbeacons.org/content/communities/sustainability/substainable-development-fund

Mae **Cronfa Digwyddiadau Cynaliadwy**[1] yn cynnig grantiau hyd at £1000 i gefnogi DECHRAU digwyddiadau o fewn y Parc Cenedlaethol. Dylai'r digwyddiad fod yn SYNIAD NEU GYSYNIAD NEWYDD a dylai fod yn GYNALIADWY (digwyddiad blynyddol) ac yn ddelfrydol dylai ddigwydd tu allan i'r tymor ymwelwyr arferol. Ystyrir digwyddiadau cyfredol sy'n fodlon ehangu a dilyn meini prawf cynaliadwy. Mae'r blaenoriaethau cyfredol yn cynnwys: mentrau cludiant yn y gymuned a ddyluniwyd i leihau ôl troed carbon; marchnata bwyd cynaliadwy a hyrwyddo cynnyrch lleol; prosiectau a ddyluniwyd i hyrwyddo mynediad at ddŵr.

Mae'r gronfa bresennol yn parhau tan fis Mawrth 2009. Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Ceri Bevan, Swyddog Cymunedau Cynaliadwy ar 01874 620471 neu ceri.bevan@breconbeacons.org

1. Mae Cronfa Digwyddiadau Cynaliadwy yn fenter Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a weinyddir gan Swyddogion Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae prosiect **Croesi Ffiniau'r Parc**[2] yn cefnogi grwpiau eithriedig ac agored i niwed i ymweld â'r Parc Cenedlaethol am y tro cyntaf er mwyn profi manteision yr ardal ysblennydd hon. Gall y prosiect helpu drwy gymorth ariannol e.e. costau cludiant; gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ymarferol, ac mae'r cyfan ar gael i grwpiau o fewn a thu allan i ardal y Parc Cenedlaethol. Os ydych yn gweithio gyda grŵp a allai elwa o'r profiad awyr agored a gwaith amgylcheddol o fewn y Parc Cenedlaethol, neu os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Ceri Bevan, Swyddog Cymunedau Cynaliadwy ar 01874 620471 neu anfonwch e-bost at ceri.bevan@breconbeacons.org

2. Mae Croesi Ffiniau'r Parc yn bartneriaeth rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sqwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH
Elusen Gofrestredig *218093*

Ffôn: 0800 2888 329 help@wcva.org.uk
Ffacs: 029 2043 1701 www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:01/07/2011

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk